

Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredu Sir y Fflint



2019 - 2024

Cynnwys

Rhagair

1. Cyflwyniad

2. Tai yn Sir y Fflint - y prif ffeithiau

3. Ble mae tai yn ffitio - y darlun mwy o faint

4. Yr heriau a wynebwn

4.1 Prinder y math iawn o gartrefi

4.2 Gofynion cynyddol

5. Ble'r ydym eisiau bod

5.1 Ein gweledigaeth

5.2 Ein blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi

6. Cyflawni'n strategaeth

6.1 Llywodraethiant

6.2 Monitro ac adolygu

7. Gwneud iddo ddigwydd - y Cynllun Gweithredu

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'n Strategaeth Tai a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2019-2024, sy'n gosod ein huchelgais i ddarparu tai fforddiadwy a chefnogaeth ar draws Sir y Fflint ar gyfer ein trigolion. Er bod y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol gyda llai o adnoddau ond gan gyflwyno 'mwy am lai', rydym, serch hynny, yn ymroi i'r egwyddor bod cartref o safon dda wrth wraidd lles unigolion a chymunedol, a byddwn yn parhau i alluogi'r ddarpariaeth o gartrefi priodol a fforddiadwy, yn enwedig i'r rhai â'r angen mwyaf.

Mae ein Strategaeth Tai yn gosod sut bwriadwn gyflawni hyn trwy weithio ar y cyd gyda'n partneriaid strategol mewn ffordd ddeallus ac arloesol i gyflawni'n huchelgais. O ganlyniad i'r gweithgareddau a amlinellir yn ein Strategaeth Tai flaenorol, cyflawnom dros 400 o gartrefi fforddiadwy newydd gyda'i gilydd at ddibenion rhent a pherchnogaeth. Mae'r Strategaeth newydd yn rhoi manylion ein blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol i gyflawni wrth symud ymlaen, yn ogystal â chydabod ein cynnydd hyd yma.

Edrychwn ymlaen at gydweithio i gyflawni'n gweledigaeth o ddarparu'r math iawn o gartrefi o safon a'r gefnogaeth fwyaf priodol i fodloni anghenion tai ein trigolion.

Cyng. Dave Hughes
Yr Aelod Cabinet dros Tai

Neal Cockerton
Prif Swyddog Tai ac Asedau

1. Cyflwyniad

1.1 Cyflawniadau hyd yma

Mae Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid yn falch o'r hyn a gyflawnwyd ar y cyd dros y 5 mlynedd diwethaf sy'n cynnwys cyflawni 418 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol. Mae'r isod yn gosod rhai o'r prif ganlyniadau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod y strategaeth Tai flaenorol 'Cartref o Safon i Bawb' (2012 – 2017):

- Cyflawnwyd 138 o eiddo rhent cymdeithasol a fforddiadwy newydd trwy Raglen Tai ac Adfywio Strategol (RhTAS) y Cyngor, yn ogystal â 146 o eiddo rhent cymdeithasol newydd trwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol gan ein partner Cymdeithasau Tai.
- Codwyd 134 o gartrefi Rhannu Ecwiti ar gyfer ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Fforddiadwy
- Mae'r 214 o fflatiau deulawr yng Nghanol Tref y Fflint wedi'u dymchwel fel rhan o brosiect Adfywio Canolfan Tref y Fflint a chrëwyd 92 o gartrefi fforddiadwy newydd trwy RhTAS.
- Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor wedi gweithio tuag at gyflawni SATC ar gyfer stoc y Cyngor gyda 6,700 o geginau sy'n cydymffurfio â SATC wedi'u cyflawni a 6,500 o ystafelloedd ymolchi sy'n cydymffurfio â SATC wedi'u cyflawni a bwriedir cwblhau'r rhaglen erbyn 2020.
- Sefydlwyd dull cyffredin o gael tai trwy brosiect Un Llwybr Mynediad at Dai Grŵp Mynediad at Dai Gogledd Cymru.
- Sefydlwyd cwmni tai, sef North East Wales Homes, i gynyddu'r llety sydd ar gael i bobl leol.

Mae crynodeb manylach o'n cyflawniadau yn erbyn amcanion a blaenoriaethau unigol wedi'u gosod yn Atodiad A.

*Cyflawnwyd rhwng 2011/12 a 2017/18 ac mae'n cynnwys darpariaeth gan Gyngor Sir y Fflint, y Cymdeithasau Tai a'r sector preifat.

1.2 Strategaeth Tai 2019-2024

Wrth symud ymlaen, mae'r strategaeth tai ar gyfer 2019-2024 yn adeiladu ar gyflawniadau blaenorol wrth ystyried yr ystod o heriau a wynebwn gan gynnwys y gostyngiad mewn adnoddau, yn ogystal â chyfleoedd fel y Fargen Twf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cyngor yn gwybod y gall ond gyflawni ei nodau a blaenoriaethau strategol a osodwyd yn y strategaeth hon trwy weithio mewn partneriaeth a thrwy gyfuno adnoddau.

Rydym wedi dynodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, ac yn ein barn ni, byddant yn darparu'r fframwaith iawn i gyflawni cartrefi, cefnogi pobl a hyrwyddo cynaliadwyedd lle. Dyma nhw:

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref; a

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

1. Cyflwyniad

1.3 Egwyddorion sy'n fframio'r strategaeth

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth Tai'n gyson â'r rhai a osodwyd yn ein Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol a'r Cynllun Gweithredu Lleol, yn ogystal â'r Lleoedd Comisiynu Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Cefnogi Pobl. Datblygwyd y dogfennau strategol hyn ar y cyd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod yr holl gyflawniadau'n ychwanegu at ei gilydd a'r egwyddorion cyflawni'n cael eu rhannu, gan gynnwys:

- Atal digartrefedd;
- Bod llety addas ar gael ac yn mynd i fod ar gael i bobl sy'n ddigartref, neu a allai fynd yn ddigartref;
- Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sy'n ddigartref, neu a allai fynd yn ddigartref.

Yn ogystal, mae'r saith nod a osodwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi llywio datblygiad y strategaeth, trwy sicrhau ein bod yn ystyried sut rydym yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, yn ogystal ag edrych ar sut ydym yn atal problemau ac yn cymryd dull mwy cydlynol wrth gyflawni'r strategaeth.

Cymru ffyniannus - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n ddarvoudus ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd) ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n creu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd gwaith, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a grëir trwy sicrhau gwaith boddhaol.

Cymru gydnerth - Gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r capasiti i addasu i newid (er enghraifft newid mewn hinsawdd).

Cymru iachach - Cymdeithas lle caiff lles corfforol a meddyliol pobl eu mwyhau a lle caiff dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fantais i iechyd y dyfodol eu deall.

Cymru fwy cyfartal - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i ddiwallu eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus - Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac wedi'u cysylltu'n dda.

Cymru bywiog ei diwylliant ac iaith Gymraeg ffyniannus - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn chwaraeon ac adloniant.

Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang - Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai wneud y fath beth wneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.

Mae'r term ymbarél 'tai fforddiadwy' yn cynnwys:

- Tai rhent cymdeithasol i'r bobl â'r angen mwyaf am tai ac sydd ag incymau isel;
- Rhent fforddiadwy / canolradd sy'n llai na rhent y farchnad ond yn uwch na rhent cymdeithasol ac mae ar gyfer pobl sy'n gyflogedig ond ar incymau is ac sy'n methu fforddio rhenti'r farchnad agored;
- Mae perchnogaeth fforddiadwy yn ymgorffori ystod o gynhyrchion gan gynnwys rhannu ecwiti, rhannu perchnogaeth a pherchnogaeth cartref cost isel. Mae'n rhoi cyfle i bobl brynu ar y farchnad agored am werth is, gan alluogi pobl i fynd at y farchnad dai.

Gellir mynd at dai rhent cymdeithasol trwy'r Un Llwybr Mynediad at Dai a reolir gan Gyngor Sir y Fflint; a Gellir mynd at Rent Fforddiadwy / Canolradd neu berchnogaeth fforddiadwy trwy gofrestr tai fforddiadwy Tai Teg.

2. Tai yn Sir y Fflint: Y Prif Ffeithiau

LLE

- Mae 67,090 o anheddau yn Sir y Fflint (data Treth Gyngor 2017), mae 73% o'r rheiny'n dai; mae 17% yn fyngalos; mae 8% yn fflatiau, a 2% yn fathau eraill o eiddo (cartrefi parciau/carafannau ac ati).
- Mae 73% o holl stoc tai Sir y Fflint yn eiddo perchnogion preswyl gydag 16% yn dai fforddiadwy ac 11% yn eiddo rhent preifat
- Mae 32% o'r holl dai cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn na 55 oed neu'n dai gwarchod
- Mae 41% o eiddo rhent cymdeithasol yn dai 3 ystafell wely ac mae 5% yn eiddo un ystafell wely
- Roedd 584 o osodiadau tai cymdeithasol yn 2016/17, gyda chyfartaledd amser aros o 338 diwrnod am gartref 1 ystafell wely ar hyn o bryd.
- Mae tua 350 o dai amfeddiannaeth yn Sir y Fflint, sy'n gyfwerth â 0.4% o'r holl stoc tai.
- Mae 11% o aelwydydd yn rhentu yn y sector preifat o gymharu â 15% ar draws Cymru
- Mae rhent y chwarter isaf yn y sector preifat wedi codi o £494 yn 2010 i £550 yn 2017
- Y rhent chwarter is cyfartalog yn y sector preifat am fflat 1 ystafell wely yw £395 y mis a'r lwfans tai lleol yw £353 y mis
- Adeiladwyd 84 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn 2016/17 a 249 yn 2017/18
- Cyflawnwyd 49 o gartrefi fforddiadwy newydd trwy'r system gynllunio (16/17)
- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael adroddiadau o ryw 500 o gartrefi gwag
- Mae'r pris tŷ canolrifol wedi codi o £141,500 yn 2007 i £155,450 yn 2017 a'r incwm gofynnol i fod yn fforddiadwy yw £39,973 (yr incwm cartref canolrifol yn Sir y Fflint yw £26,989)
- Cymhareb fforddiadwyedd yr incymau aelwydydd chwarter is i bris tŷ chwarter is yw 6.24 sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 5.78
- Mae gan 71% o aelwydydd sy'n byw mewn tai fforddiadwy incwm o lai na £300 gros yr wythnos
- Mae 11.2% o'r boblogaeth oed gweithio'n derbyn budd-dal lles

2. Tai yn Sir y Fflint: Y Prif Ffeithiau

POBL

- Mae rhyw 1,400 o aelwydydd sydd mewn angen am dai wedi'u cofrestru am dai cymdeithasol, gyda rhyw draean o dan 35 mlwydd oed.
- Mae 55% o'r holl ymgeiswyr am dai cymdeithasol yn gofyn am eiddo 1 ystafell wely
- Mae 188 o aelwydydd ar y gofrestr tai fforddiadwy wedi'u cofrestru am rent fforddiadwy a 153 am berchnogaeth fforddiadwy (Hydref 2018)
- Mae angen 228 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn i ddiwallu'r galw
- Mae angen dynodedig am safle tramwy ar gyfer y gymuned o Sipsiwn a Theithwyr
- Ar ddiwedd mis Mehefin 2018, roedd 67 o bobl mewn llety argyfwng neu dros dro
- Ceir prinder llety dros dro a llety â chymorth i'r grwpiau hynny y dynodwyd eu bod yn flaenoriaeth yn y Strategaeth Ddigartrefedd: pobl ifanc, ymadawyr carchar, pobl sy'n cysgu ar y stryd, a phobl gydag anghenion cymhleth ac amryfal.
- Mae bron i chwarter yr holl aelwydydd yn Sir y Fflint yn aelwydydd pensiynwyr
- Rhagwelir y bydd dros un rhan o bump o'r boblogaeth dros 65 mlwydd oed erbyn 2021.
- Mae gan 19.5% o boblogaeth Sir y Fflint salwch cyfyngus hirdymor
- Mae ar 55 o bobl ar y Gofrestr Tai Arbenigol angen eiddo hygrych i gadair olwyn ac mae ar 13 o aelwydydd angen cartrefi mwy o faint (2018)
- Mae mwyafrif yr aelwydydd sengl yn y sector tai cymdeithasol, gyda phrinder cartrefi llai o faint yn cael eu datblygu trwy'r farchnad agored.
- Mae prinder yn y gefnogaeth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl a gydag anghenion cymhleth

2. Tai yn Sir y Fflint: Y Prif Ffeithiau

ANSAWDD

- Mae 10.1% o anheddau meddianedig yn y sector preifat ar draws Sir y Fflint yn cynnwys aelwydydd mewn tlodi tanwydd
- Nid oes gan 1.6% o anheddau preifat wres canolog
- Mae chwarter yr anheddau rhent preifat yn methu'r safonau cartref gweddus
- Gellir gwella 30% o beryglon oerfel eithafol gydag ymyriad - bydd yr arbedion i'r GIG yn eu gwrthbwysu o fewn blwyddyn
- Mae'r deiliadaethau gyda'r canran uchaf o anffodlonrwydd â chyflwr eu heiddo yn stoc tai'r Cyngor a'r stoc rhent preifat (2014)
- Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £50m yn Safonau Ansawdd Tai Cymru sy'n mynd i'r afael â'r lefelau adfeiliad yn stoc tai'r Cyngor (y disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn 2020)

3. Ble mae tai yn ffitio: y darlun mwy o faint

3.1 Cyd-destun strategol cenedlaethol Deddf Tai (Cymru) 2014

Nod y ddeddf tai yw gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru. Y prif elfennau yw:

- Cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid y sector preifat ac asiantau gosod, a fydd yn cael eu cyflwyno gan Rentu Doeth Cymru.
- Diwygio cyfraith digartrefedd, sy'n gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a'u galluogi i ddefnyddio llety addas yn y sector preifat. Rhaid i awdurdodau hefyd adolygu eu gwasanaethau digartrefedd a chael strategaeth ddigartrefedd ar waith erbyn 2018.
- Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i ddynodi.
- Grymuso awdurdodau lleol i godi mwy na chyfradd safonol y dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a rhai mathau o ail gartrefi.
- Cymorth i ddarparu tai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yw'r ddeddf newydd i wella lles pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt a gofalgwyr sydd angen cymorth arnynt. Mae'r ddeddf yn cydnabod cysyniad "gwerth cymdeithasol" sy'n bwriadu mesur pwysigrwydd a "gwerth" newidiadau cadarnhaol i les rhywun.

Mae'r Ddeddf yn newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu a'r ffordd y cyflwynir gwasanaethau gyda phobl sy'n cael mwy o ddweud yn y gofal a'r gefnogaeth a gânt. Mae'n gofyn hefyd i'r Cynghorau hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau trydydd sector.

Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad ar y cyd o'r boblogaeth er mwyn cael gwybod am yr anghenion gofal a chefnogaeth mewn ardal. Rydym wedi defnyddio Asesiad Gogledd Cymru i lywio'n sail dystiolaeth.

Deddf Diwygio Lles 2012

O ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 a chyhoeddiadau pellach y Llywodraeth Ganolog yn ymwneud â'u system lles a budd-daliadau, mae aelwydydd yn Sir y Fflint yn gweld newidiadau sylweddol yn eu materion ariannol a'u hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- O fis Ebrill 2013 ymlaen, cyfyngiad ar swm y budd-dal tai y gall tenantiaid oed gweithio mewn tai cymdeithasol ei hawlio, sydd bellach yn cwmpasu maint yr eiddo y bernir y bod arnynt ei angen, (a adwaenir fel y 'dreth ystafell wely'). Mae amodau tebyg wedi bod ar waith yn y sector preifat er 2008.
- O fis Ebrill 2013 ymlaen, cafodd yr hawl cyfradd un ystafell wely a arferai fod yn berthnasol i denantiaid dan 25 oed ei hymestyn i bobl 35 oed ac iau.

Cyflwynodd y Ddeddf Diwygio Lles Gredyd Cynhwysol i ymgorffori'r chwe phrif fudd-dal prawf modd a chredydau treth, gan gynnwys budd-dal tai.

Llwybr Tai Llywodraeth Cymru ar gyfer cyn staff y Lluoedd Arfog

Er mwyn cefnogi Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth i'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cymorth i bobl mewn meysydd fel gofal iechyd, addysg a thai sy'n cynnwys statws blaenoriaeth yn y cynllun Cymorth Prynu, Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer cyn filwyr, Grantiau Addasiadau Ffisegol a statws angen blaenoriaeth dan Ddeddf Tai 2014.

3. Ble mae tai yn ffitio: y darlun mwy o faint

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Nod y Ddeddf hon yw ei gwneud hi'n symlach i rentu cartref a diogelu hawliau tenantiaid. At ei gilydd, mae'r Ddeddf yn disodli pob tenantiaeth a thrwydded gyfredol gyda dim ond dau fath o gontract preswyllo; sicr neu safonol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ailgyhoeddi'r holl gytundebau tenantiaeth newydd a phresennol. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd i ddiodefwyr cam-drin domestig, i bobl mewn tai a rennir ac i denantiaid sydd angen i atgyweiriadau gael eu gwneud.

Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

Mae nifer y cartrefi a gollwyd trwy Hawl i Brynu ar draws Cymru'n gyfwerth â 45% o gyfanswm y stoc tai cymdeithasol ag yr oedd ym 1981. Mae hyn wedi arwain at amserau aros hwy i bobl mewn angen am dai, llawer ohonynt yn ddiameddifyn, i gael cartref y gallant ei fforddio.

Nod y Ddeddf hon yw annog datblygiad stoc tai newydd a diogelu buddsoddiadau diweddar. Bydd Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael yn dod i ben ar 24 Mawrth 2018 ar gyfer 'cartrefi newydd' sydd heb eu gosod fel tai cymdeithasol ar gyfer y chwe mis cyn y dyddiad hwn. O ran y stoc tai cymdeithasol presennol, bydd y diddymiad terfynol yn digwydd ar 26 Ionawr 2019. Fodd bynnag, gan fod Hawl i Brynu yn Sir y Fflint wedi'i gohirio, nid yw tenantiaid wedi gallu prynu eu heiddo cyngor ers mis Chwefror 2017.

Mae ystyriaethau deddfwriaethol ychwanegol yn cynnwys:

- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Gofyniad statudol y Cyngor)
- Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, 2016

3.2 Cyd-destun strategol rhanbarthol - Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

Mae Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru'n adolygiad o anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i lluniwyd gan y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), fe'i cefnogir gan lechyd Cyhoeddus Cymru, i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (y ddeddf).

Ymhlith rhai o'r prif ganfyddiadau cysylltiedig â thai ar gyfer Sir y Fflint mae:

- Cynnal darpariaeth cartrefi gofal y cyngor lleol ac archwilio datblygiad gofal canolradd sy'n canolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cynnydd (ar sail angen a ragwelir o newidiadau demograffig o 178 o leoliadau cartrefi gofal pellach erbyn 2020.
- Parhau i archwilio a datblygu dewisiadau tai i fodloni anghenion pobl gydag anabledau dysgu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
- Dylai cyngorau lleol ystyried anghenion cyn-filwyr, fel grŵp diameddifyn, yn eu lleoliad cynllunio corfforaethol a blaenoriaeth gorfforaethol.
- Bydd gan Gymdeithasau Tai a darparwyr trydydd sector sydd â phrofiad o gyflwyno gwasanaethau i grwpiau diameddifyn penodol rôl bwysig wrth gynorthwyo ymdrechion sefydliadau statudol. Bydd angen yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n ychwanegu at y sector statudol, wrth i ni ragweld cynnydd sefydlog yn y boblogaeth hyd at 2020.
- Mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaeth / cymorth sy'n cynnwys:
 - Prinder llety i un
 - Darpariaeth hostel gyfyngedig
 - Prinder darpariaeth arbenigol i unigolion gyda chyflyrau meddygol parhaus
 - Bylchau mewn gwasanaethau cymorth

3. Ble mae tai yn ffitio: y darlun mwy o faint

Bargen Twf Economaidd Gogledd Cymru

Mae chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru'n gweithio ar y cyd ar Fargen Twf, gyda thai yn un o'r blaenoriaethau strategol. Y cynnig yw sefydlu prosiect Galluogi Tai rhanbarthol a fyddai'n cyflymu cyfradd adeiladu tai ac yn darparu cymorth i ddatblygwyr sy'n Fusnesau Bach a Chanolig eu maint (BBaChau) ar draws Gogledd Cymru. Mae'r cynllun arfaethedig yn rhoi cymorth i adeiladwyr tai sy'n BBaCh sy'n mynd trwy rwystrau ar hyn o bryd i fynd i mewn i'r farchnad; cynyddu nifer y tai a gwblheir; darparu rhagor o dai fforddiadwy; a chynyddu nifer y swyddi adeiladu. Byddai canlyniadau'r prosiect yn cynnwys 250 o dai fforddiadwy fel rhan o gyflawni'r rhaglen o 1,000 o dai.

Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol a Chynllun Gweithredu Lleol

Mae 6 Awdurdod Lleol ar draws Gogledd Cymru wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol ac yn lleol mae gan bob Awdurdod Lleol Gynllun Gweithredu Lleol a bydd ar waith erbyn diwedd 2018 fel y gosodwyd yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r strategaeth yn gyson â'r strategaeth tai gyda'r brif nod o 'leihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru'. Mae gan y strategaeth Ddigartrefedd 3 thema a blaenoriaeth (a osodwyd isod) ac mae'r Cynllun Gweithredu Lleol yn dynodi camau allweddol i fynd i'r afael â nhw.

Pobl	Cartrefi	Gwasanaethau
Digartrefedd ymhlith pobl ifanc; ymadawyr carchar; pobl sy'n cysgu ar y stryd; a phobl gydag anghenion cymhleth.	IGwell mynediad i lety (cyflenwad); llety dros dro; modelau cyflwyno amgen; a thai yn gyntaf.	Atal / ymyrraeth; lliniaru diwygiadau lles; iechyd a gofal cymdeithasol; a chyfathrebu.

Sefydlwyd grŵp Cyflawni Digartrefedd Rhanbarthol i roi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu rhanbarthol ar waith. Mae'r grŵp yn cynnwys arweinwyr y Strategaeth Tai o'r 6 Awdurdod Lleol. Lle bo angen, bydd is-grwpiau'n canolbwyntio ar y gwahanol feysydd blaenoriaeth ac yn meddwl am ystod o gamau ar lefel ranbarthol ac yn gwneud argymhellion i ardaloedd lleol er mwyn mynd i'r afael â'r materion.

Bydd y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn cysylltu â strwythurau rhanbarthol y Grant Cymorth Tai newydd, gan sicrhau mecanwaith cydlynol ac effeithiol i gyflwyno a monitro canlyniadau.

3. Ble mae tai yn ffitio: y darlun mwy o faint

Cynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru 2017-2020

Mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth cysylltiedig â thai i grwpiau diamddiffyn, sy'n eu cefnogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth ac yn ei chynnal. Goruchwylir y strategaeth gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Dyma'r meysydd blaenoriaeth rhanbarthol a ddynodir yn y strategaeth: cam-drin domestig; pobl yn gadael carchar; iechyd meddwl; anableddau dysgu; a phobl sy'n cysgu ar y stryd.

3.3 Cyd-destun strategol lleol

Blaenoriaethau Strategol Cynllun y Cyngor (2017 – 2023)

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi dynodi tai fel blaenoriaeth strategol allweddol fel y gosodwyd yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2023, gan sicrhau bod gan ei drigolion fynediad at:

- Gartrefi priodol a fforddiadwy, trwy sicrhau bod tai cyngor fforddiadwy ac o safon o bob deiliadaeth yn cael eu cyflenwi; a
- Chartrefi modern, effeithlon ac wedi'u haddasu, trwy sicrhau bod tai fforddiadwy ac o safon o bob deiliadaeth yn cael eu cyflenwi.

Nod y Cyngor yw:

- Atal digartrefedd
- Bodloni anghenion tai a llety amrywiol y boblogaeth leol
- Datblygu mwy o gyfleoedd i bobl gael cartref rhent isel a pherchen ar gartref am gost isel
- Adeiladu uchafswm nifer y tai Cyngor sy'n bosibl fel rhan o'r ateb cyflenwi tai
- Bodloni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl dai cymdeithasol i'w dwyn i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint 2015-2030

Mae Sir y Fflint yn y broses o baratoi ei CDLI ac mae wedi llunio ei Dogfen Ymgynghori Strategaeth a Ffeirir, sy'n gosod yr uchelgais twf ar gyfer y Sir a'i pholisi strategol i fodloni'r anghenion tai trwy'r system gynllunio. Mae'r Strategaeth a Ffeirir yn dynodi gofyniad am 7,645 o dai newydd yn ystod cyfnod y cynllun, 2015 – 2030 gyda chanran o gartrefi fforddiadwy o wahanol ddeiliadaethau i fodloni'r galw lleol fel y gosodwyd yn yr Asesiad o Farchnad Dai Lleol Sir y Fflint 2019

Grant Cymorth Tai

Ym mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r Grant Cymorth Tai sy'n ymgorffori'r Grant Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a grant deddfwriaeth Rhentu Doeth Cymru. Bydd y rhain yn cael eu rheoli'n gydlynol, gyda'r nod o leihau dyblygu wrth gyflawni gan wneud y mwyaf o'r effaith.

4. Yr heriau a wynebwn

4. Yr heriau a wynebwn

4.1 Prinder y math iawn o gartrefi

- Nifer sylweddol o aelwydydd sydd angen cartrefi rhent cymdeithasol, gan drechu'r ddarpariaeth amcanol o ddarparu cartrefi newydd.
- Nifer gynyddol o bobl yn cofrestru ar wefan Tai Teg i gael cartrefi rhent fforddiadwy neu eiddo perchnogaeth fforddiadwy.
- Ceir diffyg cyfatebiaeth rhwng y math o dai cymdeithasol presennol sydd ar gael o gymharu â'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd, gan arwain at amserau aros hir ar y gofrestr tai a chynnwys mewn eiddo 'anodd eu gosod'. Mae hyn yn cynnwys prinder llety un person a thai arbenigol megis eiddo wedi'u haddasu neu eiddo mawr i deuluoedd.
- Mae oddeutu 500 o eiddo'n wag ar draws Sir y Fflint ond cyfyngedig yw'r adnoddau i fynd i'r afael â'r broblem neu gymell perchnogion i adfer y defnydd ohonynt.
- Cafwyd gostyngiad yn yr eiddo sydd ar gael yn y Sector Rhent Preifat i'r Awdurdod Lleol droi atynt ar gyfer pobl ddigartref o ganlyniadau i newidiadau yn y dreth, gweithredu Credyd Cynhwysol a'r risg sy'n deillio o hynny ar ffurf ôl-ddyledion rhent, yn ogystal â chyflwyno Rhentu Doeth Cymru.
- Ceir diffyg tai a rennir ansawdd da, bach (h.y. uchafswm o 4 ystafell wely) i bobl sengl sy'n methu fforddio'u cartref eu hunain neu sydd angen llety dros dro.
- Ceir diffyg tai â chymorth arbenigol i bobl gydag anghenion cymhleth, gan gynnwys adferiad o gyffuriau / alcohol, materion iechyd meddwl neu anghenion cymorth eraill.
- Rhenti mwyfwy anodd eu fforddio yn y sector preifat.

4.2 Gofynion cynyddol

- Demograffig sy'n heneiddio gyda phobl a chanddynt faterion amryfal a chymhleth yn cynyddu'r galw am wasanaethau cymorth a mathau o dai sy'n cynnwys addasiadau. Ceir adnoddau cyfyngedig i fodloni'r gofynion hyn a gall lefel yr adnoddau sydd ar gael ddibynnu ar y ddeiliadaeth.
- Cynnydd ar gyfer y galw am, a chost ddilynol llety argyfwng a dros dro. Gall ansawdd y llety dros dro fod yn wael hefyd a gall y gofynion rheoli fod yn uchel os ydy'r llety dros dro yn llety amlfeddiannaeth.
- Yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol, cafwyd cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent ar draws y sector rhent cymdeithasol a chynnydd mewn galw am fesurau ymyrraeth i gefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau a chadw achosion troi allan yn y sector tai cymdeithasol rhag cael effaith sylweddol ar lefelau digartrefedd.
- Lefelau nodedig o dlodi tanwydd ar draws Sir y Fflint sy'n risg os bydd y costau tanwydd yn codi.
- Angen i wella'r safonau tai yn y sector preifat er mwyn lleihau'r costau ehangach i'r pwrs cyhoeddus

5. Ble'r ydym eisiau bod

5.1 Ein gweledigaeth

Y weledigaeth ar gyfer y Strategaeth Tai yw:

Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i lywio a chyflawni'r math iawn o dai o safon a'r cymorth mwyaf priodol i fodloni anghenion tai ein poblogaeth.

5.2 Ein blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Mae gennym alw sylweddol am eiddo rhent cymdeithasol trwy'r Un Llwybr Mynediad at Dai ac ar gyfer rhent a pherchnogaeth fforddiadwy ar gofrestr TAI TEG. Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, mae angen i ni ystyried ystod o atebion gan gynnwys adeiladu cartrefi newydd; gwella mynediad i'r sector rhent preifat; gwell defnydd o stoc bresennol; neu drwy gaffaeliadau strategol. Mae'n bwysig bod angen i ni sicrhau ein bod yn darparu'r math iawn o gartrefi i fodloni anghenion pobl yn y lleoliad iawn.

1.1 Cynyddu cyflenwad pob math a deiliadaeth o dai fforddiadwy trwy ddatblygiadau adeiladau newydd trwy:

- Ddylanwadu ar raglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a reolir gan yr Awdurdod Lleol, i sicrhau'r buddsoddiad uchaf i fodloni'r math iawn o dai cymdeithasol newydd ar draws Sir y Fflint.
- Datblygu cynllun blaenddatblygu ar gyfer rhaglen adeiladau newydd y Cyngor ar ôl 2021 – Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (RhTAS).
- Gwneud y mwyaf o'r buddsoddiad i ddatblygu trwy North East Wales Homes.
- Gwneud y mwyaf o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ar safleoedd dan arweiniad y farchnad trwy drafod gyda datblygwyr ar ofynion Adran 106.
- Archwilio arloesedd ar draws y sector Adeiladu i gynyddu'r cyflenwad wrth leihau'r costau datblygu.
- Bodloni'r diffyg blynyddol o 228 o gartrefi fforddiadwy, y mae 137 ohonynt yn gartrefi rhent cymdeithasol neu fforddiadwy a 91 ohonynt yn gartrefi perchnogaeth fforddiadwy (e.e. rhannu ecwiti).

1.2 Cynyddu'r cyflenwad trwy well defnydd o stoc tai cymdeithasol presennol trwy:

- Adolygu stoc tai'r Cyngor a stoc ein partner Cymdeithas Tai i gadarnhau a oes cwmpas i ddefnyddio stoc yn fwy effeithiol i fodloni'r angen tai lleol.
- Datblygu cofrestr Tai Hygyrch, sy'n dynodi'r holl eiddo sydd ag addasiad.

1.3 Cynyddu'r cyflenwad trwy adfer y defnydd o gartrefi gwag trwy:

- Ddatblygu polisiâu sy'n nodi dewisiadau ar gyfer sicrhau eiddo gwag ac adfer y defnydd ohonynt.
- Lleihau nifer yr eiddo gwag a ddynodwyd trwy'r system Dreth Gyngor, gan weithio ar y cyd gyda'r rhai sy'n wag yn y tymor hir neu sy'n destun cynwion.
- Darparu cymorth ariannol i adfer defnydd yr eiddo gwag trwy ddefnyddio cyllid presennol sydd ar gael gan gynnwys trwy'r grant tai cymdeithasol.

5. Ble'r ydym eisiau bod

1.4 Cynyddu'r cyflenwad trwy'r sector rhent preifat trwy:

- Sicrhau bod tîm / Swyddog sector rhent preifat ymroddedig ar gael yn y Cyngor i gydlynu a hyrwyddo'r sector rhent preifat er mwyn cynyddu argaeledd.
- Datblygu cynllun gweithredu sector rhent preifat ymroddedig gyda'r nod o gyflwyno gwasanaeth effeithiol i landlordiaid a thenantiaid ar draws Sir y Fflint.
- Cyflwyno cynnig wedi'i deilwra i landlordiaid a gweithio gyda'r Fforwm Landlordiaid i ddatblygu dulliau arloesol o fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan landlordiaid a thenantiaid.

1.5 Darparu'r math iawn o gartrefi i fodloni'r galw cynyddol am lety i un ac eiddo mwy o faint i deuluoedd trwy'r:

- Tîm Strategaeth Tai'n rhoi gwybod i'r Cymdeithasau Tai a rhaglenni adeiladau newydd y Cyngor o ofynion tai penodol yn ardal y datblygiad i'w hymgorffori yn y cynlluniau.
- Datblygu dulliau arloesol o gyflawni a rheoli eiddo er mwyn eu diogelu i'r dyfodol ac i sicrhau cynaliadwyedd yr eiddo.
- Ystyried y defnydd o gaffaeliadau strategol lle mae adnoddau ar gael.

1.6 Darparu'r math iawn o gartrefi i wella arlwy a chwmpas y ddarpariaeth tai arbenigol trwy:

- Ddatblygu fframwaith cyffredinol i ddarparu'r dull mwyaf cost effeithiol a theg o gyflawni tai arbenigol rhwng y Cyngor a'i bartneriaid, gan fodloni anghenion ein cymunedau.
- Defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r gofrestr tai arbenigol gan sicrhau ein bod yn darparu tai sy'n bodloni anghenion pobl gydag anabledau.
- Gweithio gyda phartneriaid yn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu darpariaeth tai i bobl gydag anghenion iechyd cymhleth.
- Darparu'r math iawn o dai i fodloni anghenion pobl hŷn nawr ac yn y dyfodol.

1.7 Darparu'r math iawn o lety ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr trwy:

- Sicrhau bod yr angen am leiniau preswyl yn cael eu bodloni yn Sir y Fflint gan weithio gyda'r gymuned.
- Darparu safle tramwy yn y Sir.
- Sicrhau rheolaeth effeithiol barhaus o'r safle y mae'r Cyngor yn berchen arno yn Riverside.

5. Ble'r ydym eisiau bod

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Nod cymorth cysylltiedig â thai yw atal y problemau sy'n gallu achosi i bobl ddi-amddiffyn fynd yn ddigartref. Egwyddor cymorth cysylltiedig â thai yw cefnogi rhywun i droi at lety, ei gynnal a'i reoli gan gynorthwyo wrth ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i fyw mor annibynnol â phosibl.

2.1 Lleihau digartrefedd trwy atal trwy:

- Weithio ar draws y rhanbarth gyda phartneriaid yr Awdurdod Lleol i gyflawni'r strategaeth ddigartrefedd ranbarthol a chynllun gweithredu lleol.
- Gweithio gyda phob partner perthnasol yn Sir y Fflint i atal digartrefedd a chefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau.

2.2 Lleihau'r galw am lety dros dro trwy:

- Sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu i fodloni anghenion pobl / teuluoedd digartref.
- Cynyddu'r cyflenwad o lety symud ymlaen addas, yn enwedig i bobl gydag anghenion cymorth.

2.3 Darparu'r math iawn o gymorth i'r bobl fwyaf di-amddiffyn gydag anghenion cymhleth trwy:

- Gomisiynu'n strategol wasanaethau cymorth a fydd yn ymatebol i ystod lawn yr anghenion cymorth.
- Gweithio gyda'r holl bartneriaid a thimau eraill yn y Cyngor i sicrhau bod cymorth ar gael a'i fod o safon.

2.4 Darparu ystod o gymorth ariannol a chymdeithasol trwy:

- Sicrhau ystod o gynhyrchion ariannol i gefnogi pobl i gael eu cartref ac aros ynddo.
- Datblygu ystod o gymorth arloesol i fynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol wrth fynd at eu cartref ac aros yno.

2.5 Rhoi cymorth i bobl hŷn naill ai i aros yn eu cartref eu hunain neu symud i lety mwy addas trwy:

- Adolygu'r Gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai a deall anghenion tai pobl hŷn.
- Datblygu dealltwriaeth ehangach o ofynion tai i bobl hŷn a datblygu atebion arloesol.

5. Ble'r ydym eisiau bod

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi

Mae gwella ansawdd y stoc tai presennol a datblygu stoc arloesol, ynni effeithlon newydd yn amcan pwysig i gyfrannu at y targed dargarboneiddio erbyn 2020 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a nod y Cyngor i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

3.1 Gwneud y mwyaf o safonau effeithlonrwydd ynni a dulliau cyflawni trwy:

Gydlynw'r ddarpariaeth gyllid i wella effeithlonrwydd ynni'r sector preifat.

- Cynyddu nifer yr eiddo sy'n gysylltiedig â rhwydwaith y prif gyflenwad nwy trwy raglenni mewnlenni nwy
- Ôl-ffitio mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer y stoc tai cymdeithasol.

3.2 Gwella ansawdd a safon llety yn y sector preifat trwy:

- Brosiect 'Cartrefi Iach a Phobl Ifanc 2025' sy'n dwyn ynghyd grŵp gwirfoddol o bobl a sefydliadau pryderus sy'n gweithio gyda'r un pwrpas o ddod ag anghydraddoldeb iechyd y gellid bod wedi'i osgoi yng Ngogledd Cymru i ben.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda Landlordiaid a Thenantiaid i wella gwybodaeth a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth

3.3 Cwblhau rhaglen SATC erbyn 2020 ar draws yr holl stoc tai yn Sir y Fflint.

3.4 Mabwysiadu dull cydweithredol o gynllunio ar gyfer y cynnydd yn y galw am addasiadau mewn eiddo i alluogi trigolion i aros yn eu cartref trwy:

- Osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar les ac annibyniaeth i'w cyflawni gan bob partner.
- Gwella deallusrwydd ar y galw am addasiadau a'i ddefnyddio i sefydlu goblygiadau o ran adnoddau.
- Cysylltu'r systemau ar gyfer rheoli a chyflawni addasiadau.

3.5 Gwella safon yr adeiladau newydd a godwyd gan y Cyngor a'r Cymdeithasau Tai trwy:

- Werthuso a chyflwyno Safon Tai Sir y Fflint.
- Hyrwyddo Gofynion Ansawdd Cynllunio Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno gwahanol ddulliau adeiladu i wella effeithlonrwydd ynni.

3.6 Mynd i'r afael â thlodi tanwydd ar draws tai Sir y Fflint trwy:

- Wella safonau yn y sector preifat (y tu allan i'r sector rhent preifat ac ynni) fel rhan o ddyletswydd statudol y Cyngor.
- Cynnig cynhyrchion benthyca a ariennir gan LIC i leihau'r achosion o beryglon Categori 1 mewn eiddo perchnogion preswyl.
- Gweithredu rhaglenni adnewyddu tai i wella ansawdd stoc tai'r sector preifat fel y mae adnoddau ariannu'n eu caniatáu.

6. Cyflawni'n strategaeth

6.1 Llywodraethiant

Bydd y Strategaeth Tai'n cael ei goruchwyllo gan Bartneriaeth Tai Strategol Sir y Fflint sy'n cynnwys Prif Weithredwyr ein Cymdeithasau Tai partner, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Cyngor sy'n cynnwys yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a'r Prif Swyddog ar gyfer Tai ac Asedau.

6.2 Monitro ac adolygu

Bydd tîm Strategaeth Tai Sir y Fflint yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynllun yn erbyn y camau a osodwyd yn y cynllun gweithredu. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod camau perthnasol yn cael eu cynnwys i sicrhau y bodlonir y weledigaeth a'r blaenoriaethau. Bydd adroddiad blynyddol yn rhoi manylion cynnydd meintiol yn erbyn allbynnau ac adroddiad ansoddol o gynnydd yn erbyn y canlyniadau.

6.3 Adnoddau

Bydd y camau yn y cynllun yn cael eu bodloni trwy adnoddau ariannu presennol gan gynnwys er enghraifft, grant tai cymdeithasol, grant cyllid hyblyg, y Gronfa Gofal Canolradd ac ati. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer y gwahanol ffynonellau ariannu.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflwyno a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Allbwn	Amserlen	Sefydliad(au) arweiniol
Bodloni'r diffyg blynyddol o 238 o dai fforddiadwy fel y dynodwyd yn Asesiad o Farchnad Dai 2019 y Cyngor Lleol trwy gyflawni'r deiliadaethau canlynol: (i) Cynyddu nifer yr eiddo rhent cymdeithasol newydd (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu'r Cyngor) gan 86 y flwyddyn (ii) Cynyddu nifer yr eiddo rhent canolradd (NEW Homes neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) gan 57 y flwyddyn (iii) Cynyddu nifer yr eiddo perchnogaeth ganolradd (trwy ddarpariaeth adran 106 neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) gan 95 y flwyddyn	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC
Cyflawni 5% (10) o adeiladau newydd y flwyddyn i fodloni'r galw am ddarpariaeth arbenigol	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC
Cyflawni 20 addasiad mawr ar eiddo presennol y flwyddyn (pob deiliadaeth)	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC
Cynyddu canran yr eiddo rhent cymdeithasol un ystafell wely gan 20% (16) yn y Cyngor y flwyddyn o bob eiddo rhent cymdeithasol newydd	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC
Gostwng nifer yr eiddo gwag gan 10% (50) dros oes y strategaeth	Mawrth 2025	Cyngor Sir y Fflint

Blaenoriaeth 1.1 Cynyddu cyflenwad pob math a deiliadaeth o dai fforddiadwy trwy ddatblygiadau newydd

Gweithred	Tasg
Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru LCC	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu'r capasiti i ddatblygu yn Sir y Fflint trwy osod Cymdeithasau Tai ychwanegol mewn ardaloedd. Sicrhau bod uchafswm nifer yr eiddo'n cael eu cyflawni gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael. Sicrhau rhestr o gynlluniau wrth gefn grymus. Sicrhau bod y math a'r ddeiliadaeth yn bodloni anghenion tai lleol, yn bennaf eiddo rhent cymdeithasol, a lywiwyd gan Dîm Strategaeth Tai'r Cyngor
Rhaglen adeiladau newydd y Cyngor: RhTAS/ Cyfrif Refeniw Tai	<ul style="list-style-type: none"> Bodloni uchelgais Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai i gyflawni 50 o gartrefi rhent cymdeithasol newydd y flwyddyn hyd at 2030 er mwyn bodloni galw'r gofrestr tai cymdeithasol. Sicrhau bod yr adeiladau newydd a gyflawnir yn ychwanegu gwerth trwy fynd i'r afael â phwysau rhai mathau o dai trwy seilio cynlluniau datblygu ar ddeallusrwydd. Defnyddio Grant Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflawniad. Sicrhau codiad yn y cap benthyca i alluogi adnoddau ariannol ychwanegol i fodloni uchelgeisiau cyflawni'r Cyngor. Datblygu blaengynllun cyflawni ar gyfer y RhTAS pan gyflawnir y targed o 500 o gartrefi newydd.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflwyno a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.1 Cynyddu cyflenwad pob math a deiliadaeth o dai fforddiadwy trwy ddatblygiadau adeiladu newydd	
Gweithred	Tasg
Buddsoddiad NEW Homes	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi cyflawniad eiddo rhent fforddiadwy trwy RhTAS ar gyfer NEW Homes. Sicrhau bod NEW Homes yn gwneud y mwyaf o'u gallu i fuddsoddi yn y gwaith o gyflawni eiddo rhent fforddiadwy trwy ddefnyddio'u hasedau presennol.
Gwneud y mwyaf o'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar safleoedd dan arweiniad y farchnad trwy ofynion Adran 106	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gofynion polisi cynllunio tai fforddiadwy yr CDLI newydd yn gwneud y mwyaf o'r ddarpariaeth briodol ar y safle. Cefnogi ac annog ein partneriaid cyflawni i ddefnyddio cyllid preifat a grant Rhentu i Berchen i gaffael unedau gan ddatblygwyr ar gyfer rhent fforddiadwy a rhentu i berchen / rhannu perchnogaeth, yn ogystal â'r gofyniad cynllunio. Gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod modelau perchnogaeth fforddiadwy'n cael eu cyflawni, fel rhannu ecwiti, lle mae galw.
Archwilio arloesedd a gwerth cymdeithasol ar draws y sector	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio gweithgynhyrchu oddi ar y safle / Dulliau Gweithgynhyrchu Modern Archwilio cyfleoedd trwy bartneriaeth borgen twf rhanbarthol. Ystyried buddsoddi mewn cynlluniau ar gyfer cartrefi i genedlaethau amryfal / hyblyg Cynyddu'r defnydd o werth cymdeithasol mewn cynllunio a chaffael gwasanaethau er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gefnogi trigolion diamddiffyn.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.2 Cynyddu'r cyflenwad trwy well defnydd o'r stoc tai cymdeithasol presennol	
Gweithred	Tasg
Stoc tai'r Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd ag adolygiad o'r stoc a thenantiaethau i bend-erfynu lle mae tanbreswylid neu lle mae capasiti i gysoni'r defnydd o'r stoc. • Adolygu'r defnydd presennol o stoc i asesu'r defnydd gorau • Datblygu cynllun cymhellion i annog symudiad yn y stoc lle gellir profi ei fod yn bodloni angen gan y gofrestr tai a mynd i'r afael â thanbreswylid / gorlenwi.
Stoc y Gymdeithas Tai Partner	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r defnydd presennol o stoc i asesu'r defnydd gorau yn unol â blaenoriaethau strategol
Tai Hygyrch	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Cofrestr Tai Hygyrch i'r holl stoc tai cymdeithasol i alluogi gwell defnydd o'r stoc wedi'i addasu. • Asesu'r gofrestr i ddynodi lle mae cartrefi gydag addasiadau y gellid eu defnyddio • Ymgysylltu â Thai, Iechyd Galwedigaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl ar bob datblygiad i sicrhau y bodlonir pob angen hygyrch.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.3 Cynyddu'r cyflenwad trwy adfer y defnydd o gartrefi gwag	
Gweithred	Tasg
Datblygu polisiau perthnasol i wneud y mwyaf o rymoedd cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisi i Sir y Fflint wneud y mwyaf o rymoedd cyfreithiol gan gynnwys y potensial am brynu gorfodol neu gymryd perchnogaeth dros dro. Archwilio adnoddau potensial gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol. Datblygu menter, ar y cyd â'n Cymdeithasau Tai, i adfer y defnydd o eiddo gwag i fodloni anghenion penodol megis ar gyfer teuluoedd mwy o faint.
Lleihau nifer yr eiddo gwag	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai partner a Thîm y Dreth Gyngor i ddynodi'r eiddo hynny sy'n wag yn y tymor hir ac sy'n achosi problemau i'r gymuned leol.
Darparu cymorth ariannol i adfer y defnydd o eiddo gwag	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo benthyciadau 'Troï Tai'n Gartrefi' gyda'r nod o adfer y defnydd o eiddo gwag trwy ddarparu benthyciadau fforddiadwy o hyd at £25,000 yn y sector preifat

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.4 Cynyddu'r cyflenwad trwy'r sector rhent preifat	
Gweithred	Tasg
Tim / Swyddog sector rhent preifat ymroddedig yn y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Cysoni adnoddau staffio ac arbenigedd presennol i ddatblygu gwell cynnig sector rhent preifat ar draws y sir.
Datblygu cynllun gweithredu'r sector rhent preifat gan sicrhau gwasanaeth effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Ymgymryd ag adolygiad o fforddiadwyedd y sector ac archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â nhw trwy gymhellion neu ymyriadau os oes angen. Gweithio gyda thîm lechyd yr Amgylchedd i wella safonau yn y sector.
Cyflwyno cynnig landlord wedi'i deilwra	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori â landlordiaid y sector preifat trwy'r Fforwm Landlordiaid i gadarnhau gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau a beth fyddai'r ffactorau llwyddiant hollbwysig i ddarparu cynnig llwyddiannus. Darparu ystod o gynigion i Landlordiaid gymell eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad i'r Cyngor gan gynnwys y BOND. Sicrhau bod y cynnig yn hyblyg, yn ogystal â grymus a chost effeithiol.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.5 Darparu'r math iawn o gartrefi i fodloni'r galw cynyddol am lety i un ac eiddo mwy o faint ar gyfer teuluoedd	
Gweithred	Tasg
Rhaglenni adeiladu newydd LCC a'r Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Yn gofyn am niferoedd uwch o lety i un ac eiddo mwy o faint fel rhan o'r datblygiadau pob adeilad newydd. Asesiad parhaus o flaenoriaethau a diweddariadau rheolaidd
Datblygu dulliau arloesol	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu arfer gorau mewn mannau eraill a nodi ystod o ddevisiadau a allai fodloni'n gofynion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer unedau i un ac unedau mwy o faint mewn ffordd gost effeithiol. Nodi modelau cyflwyno arloesol a all ddarparu unedau llai o faint sy'n hyblyg ac y gellir eu newid i fodloni newidiadau yn y galw yn y dyfodol. Ystyried priodoldeb gwahanol ddulliau cyflawni megis hunan-adeiladu/adeiladu wedi'i deilwra a dulliau cydweithredol o fodloni'r angen.
Caffaeliadau strategol	<ul style="list-style-type: none"> Darparu cronfa gaffael strategol ar gyfer eiddo a fyddai'n bodloni angen penodol iawn ac ar gyfer niferoedd bach o eiddo. Gofyn i Gymdeithasau Tai partner ddefnyddio grant tai cymdeithasol i gaffael eiddo unigol lle mae angen penodol sydd naill ai ar frys neu na ellir ei fodloni trwy'r stoc bresennol.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.6 Darparu'r math iawn o gartrefi i wella'r arlwy a chwmpas y ddarpariaeth tai arbenigol.

Gweithred	Tasg
Fframwaith cyffredinol / strategol i benderfynu ar y cyflawniad mwyaf cost effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r dewisiadau ar gyfer cyflawni h.y. addasiadau: caffael neu adeiladu o'r newydd a datblygu mecanwaith asesu cyffredinol i benderfynu ar y dewis cyflawni mwyaf cost effeithiol mewn fframwaith cydraddoldeb. • Adolygu a mapio'r adnoddau sydd ar gael i fodloni'r galw cynyddol am addasiadau. • Archwilio dull partneriaeth o droi at gyllid a chyflawni gan gynnwys timau Tai Cyngor / Grant Cyfleusterau i'r Anabl, timau Tai Cymdeithasau Tai, Cefnogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol, lechyd Galwedigaethol, partneriaeth lechyd a'r Gronfa Gofal Canolradd. • Lobio Llywodraeth Cymru i symleiddio cyllid ar gyfer addasiadau ar draws yr holl bartneriaid cyflawni
Bodloni anghenion tai pob gydag anableddau	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gyflawni fel partneriaeth i fodloni anghenion y bobl ar y gofrestr tai arbenigol. • Gwneud y mwyaf o'r defnydd o addasiadau i helpu cynnal tenantiaethau a lleihau'r pwysau cynyddol ar y gofrestr tai. • Ystyried caffaeliadau strategol potensial i fodloni anghenion achosion arbennig o gymhleth. • Sicrhau bod eiddo wedi'u haddasu'n cael eu cynnwys ar ddatblygiadau adeiladu newydd pob Cymdeithas Tai i fodloni anghenion y gofrestr arbenigol. • Archwilio'r gwaith o gyflawni eiddo wedi'u haddasu ar gynlluniau dan arweiniad y farchnad.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.6 Darparu'r math iawn o gartrefi i wella arlwy a chwmpas y ddarpariaeth tai arbenigol	
Gweithred	Tasg
Bodloni anghenion pobl gydag anghenion iechyd cymhleth	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu perthynas ragweithiol gyda'r sector iechyd i wella cyfathrebu gyda'r Strategaeth Tai o gwmpas anghenion tai'r rheiny yn eu gofal. Cyflawni llety pontio fforddiadwy i leihau gohiriadau mewn trosglwyddiadau gofal – Glan y Morfa – trwy sicrhau cyllid ac ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol. Gweithio gyda'r tîm Atal Digartrefedd i lywio darpariaeth a dynodi arfer gorau
Darparu'r math iawn o dai i fodloni anghenion pobl hŷn	<ul style="list-style-type: none"> Deall anghenion tai'r bobl hŷn. Archwilio modelau tai amgen ac arloesol i bobl hŷn fel eiddo rhwng cenedlaethau neu fodolau cydweithredol, sy'n helpu i gadw pobl hŷn yn weithgar ac yn iachach am amser hwy. Cynnig darpariaeth arbenigol megis gofal ychwanegol a thai â chymorth i'r bobl hŷn hynny gydag anghenion gofal sy'n cynnwys dementia. Adolygu'r stoc tai cymdeithasol presennol penodol i bobl hŷn i sicrhau y gallant gynnal tenantiaethau. Archwilio'r potensial i gynnwys eiddo cyfeillgar i oedran fel rhan o ddatblygiadau'r farchnad adeiladu newydd.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn

Blaenoriaeth 1.7 Darparu'r math iawn o lety ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr	
Gweithred	Tasg
Bodloni'r angen am leiniau preswyl	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y lleiniau yn unol ag Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir y Fflint trwy gynlluniau dan arweiniad y farchnad ac adnewyddu safle dan berchnogaeth y Cyngor.
Darparu safle tramwy yn y Sir	<ul style="list-style-type: none"> Dynodi ac asesu safleoedd potensial i gyflawni safle tramwy yn Sir y Fflint. Gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safle tramwy a sicrhau grant Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ddarpariaeth.
Rheolaeth o'r safle y mae'r Cyngor yn berchen arno	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu gwahanol fodelau rheoli ar gyfer y safle dan berchnogaeth y Cyngor. Ailgyllunio a chyflawni'r gwaith o adnewyddu'r safle i ddarparu lleiniau modern. Datblygu polisi dyrannu ar gyfer y safle.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol; a Chymru iachach.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Allbwn	Amserlen	Sefydliad arweinol
Cyflawni'r camau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Lleol Digartrefedd Sir y Fflint	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint
Datblygu canolfan i Bobl Ifanc Ddigartref	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint
Lleihau nifer y bobl mewn llety dros dro gan 50% (33) dros gyfnod y cynllun	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint a phartneriaid LCC
Cyflawni safle tramwy ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint
Cyflawni un Gofal Ychwanegol yn ystod cyfnod y Strategaeth	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint a phartneriaid LCC

Blaenoriaeth 2.1 Lleihau digartrefedd trwy atal	
Gweithred	Tasg
Gwaith ar draws y rhanbarth gyda phartneriaid i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith ar draws yr ardal i ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol ar draws yr Awdurdod Lleol, gan dynnu ynghyd adnoddau i gyflwyno ymyriadau ar y cyd lle bo'n briodol ac yn gost effeithiol. Datblygu gwell dealltwriaeth o achosion digartrefedd i lywio datblygiad yr ymyriadau iawn trwy gasglu deallusrwydd ar y cyd ac yn rhanbarthol.
Gwaith gyda phartneriaid yn Sir y Fflint i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Cynllun Gweithredu Lleol ar gyfer digartrefedd i sicrhau yr eir i'r afael â materion lleol. Datblygu mesurau ataliol trwy ddarparu cymorth tenantiaeth a rheoli argyfyngau i alluogi'r bobl i gynnal eu tenantiaethau.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol; a Chymru iachach.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Blaenoriaeth 2.2: Lleihau'r galw am lety dros dro	
Gweithred	Tasg
Darparu llety addas i fodloni anghenion y digartref	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwahanol fodlau cyflawni fel Tai yn Gyntaf. Datblygu 'canolfan' i ddarparu ystod o wasanaethau i'r digartref gan gynnwys gwelyau mewn argyfwng a gwasanaethau cymorth. Gweithio'n agos gyda phartneriaid y Strategaeth Tai a datblygu i lywio'r gwaith o gyflawni llety hyblyg ac addas.
Cynyddu swm y llety symud ymlaen sydd ar gael	<ul style="list-style-type: none"> Ymgymryd ag adolygiad o'r stoc presennol ac archwilio'r dewisiadau i gynyddu'r cyflenwad o lety symud ymlaen. Sicrhau bod blaenoriaethau comisiynu'n cynnwys y gefnogaeth angenrheidiol i gynnal tenantiaethau.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol; a Chymru iachach.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Blaenoriaeth 2.3: Darparu'r math iawn o gymorth i'r bobl fwyaf diamddiffyn	
Gweithred	Task
Comisiynu gwasanaethau cymorth yn strategol	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu'r Cynllun Comisiynu Lleol sy'n ymgorffori blaenoriaethau'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol i sicrhau dull cydlynol. Cefnogi Gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Comisiynu cymorth i grwpiau blaenoriaeth: Pobl Ifanc ddigartref; Ymadawyr Carchar; Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth.
Gweithio gyda phartneriaid a thimau eraill yn y Cyngor i sicrhau bod cymorth ar gael	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol e.e. iechyd i ddarparu pecynnau cymorth yn gynnar trwy brotocolau ar y cyd. Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr iechyd i sicrhau byw gyda chymorth. Gweithio gyda phartneriaid cyflawni strategol i sicrhau bod capasiti a graddfa'r cymorth ar gael i osgoi oedi annerbyniol yn y ddarpariaeth i'r unigolyn.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol; a Chymru iachach.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Blaenoriaeth 2.4: Darparu ystod o gymorth ariannol a chymdeithasol	
Gweithred	Tasg
Sicrhau ystod o gynhyrchion ariannol i gefnogi pobl i gael cartref ac aros ynddo.	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo a datblygu cynhyrchion perchnogaeth fforddiadwy, gan gynnwys Rhannu Ecwiti, Cymorth i Brynu a Rhentu i Brynu. Hyrwyddo cymorth rhent preifat trwy'r BOND. Datblygu mynediad i becynnau dodrefnu i ddechreuwr fforddiadwy. Darparu cyngor rheolaeth ariannol a mynediad i gynhyrchion ariannol gyda'r nod o leihau'r risg o ôl-ddyledion rhent / troi allan
Datblygu ystod o gymorth arloesol i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio ystod o fentrau, ar sail arfer gorau, a fydd yn darparu buddiannau cost yn y tymor canolig i arian cyhoeddus. Er enghraifft menter gymdeithasol rhentu dodrefn

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol; a Chymru iachach.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau yn y math iawn o gartref

Blaenoriaeth 2.5: Darparu cymorth i bobl hŷn i barhau yn eu cartref eu hunain neu symud i lety mwy addas

Gweithred	Tasg
Adolygu'r RhTAS i ddeall anghenion tai pobl hŷn mewn tai cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu cynllun gyda'n partneriaid Cymdeithas Tai i fynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn ar RhTAS. Datblygu dealltwriaeth o'r galw am addasiadau i alluogi ar gyfer cynllunio adnoddau i'r dyfodol. Cysylltiadau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol; cartrefi Gofal Preswyl; Gofal Ychwanegol a thai â chymorth i chwilio am y dewisiadau symud ymlaen.
Datblygu dealltwriaeth o'r gofynion tai ehangach i bobl hŷn	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori â grwpiau diddordeb i ddynodi materion allweddol, rhwystrau a chyfleoedd potensial ar gyfer y cynllun gweithredu. Adolygu cymorth tenantiaeth a photensial y cymhellion i annog caffael eiddo llai o faint lle bo'n briodol.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru wydn a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi

Allbwn	Amserlen	Sefydliad(au) arweiniol
Leihau nifer yr aelwydydd yn y sector preifat yn Sir y Fflint sydd mewn tlogi tanwydd o 10.1% i 8% yn ystod cyfnod y strategaeth	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint
Cwblhau 100% o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru	Mawrth 2021	Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC

Blaenoriaeth 3.1 Gwneud y mwyaf o safonau effeithlonrwydd ynni a'u cyflawni	
Gweithred	Tasg
Cyflawni benthyciadau ynni adnewyddadwy'r sector preifat	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud y mwyaf o'r defnydd o gynhyrchion ynni sydd wedi'u hanelu at berchnogion preswyl i ddod ag eiddo i fyny i safon dda trwy eu gwneud nhw'n ynni effeithlon a symud peryglon.
Rhaglen mewnlenni nwy ar gyfer eiddo tai cymdeithasol nad ydynt ar y cyflenwad nwy	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Wales and West Utilities i ymestyn y rhwydwaith nwy i ddod â gwres mwy cyfleus a chost effeithiol i drigolion ar draws pob deiliadaeth.
Ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni i drigolion diamddiffyn ym mhob deiliadaeth	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cyllid allanol o bob ffynhonnell addas i roi mesurau ar waith i leihau tlogi tanwydd. Cydlynu darparwyr cyllid a chymorth i sicrhau gwasanaeth cydlynol i drigolion sy'n gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.
Cyflwyno'r Gronfa Cartrefi Clyd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor wedi sicrhau £3m i fynd i'r afael â thlogi tanwydd yn Sir y Fflint trwy wella effeithlonrwydd trwy ffitio systemau gwresogi newydd neu droi at y rhwydwaith nwy er enghraifft.
Rhaglen Arbed am Byth	<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen LIC wedi'i thargedu'n ofodol sy'n canolbwyntio ar ffenestri a drysau ac inswleiddio waliau allanol, er mwyn mynd i'r afael â thlogi tanwydd yn y sector preifat.

Blaenoriaeth 3.2: Gwella ansawdd a safon llety yn y sector preifat	
Gweithred	Tasg
Mae prosiect Cartrefi Iach a Phobl Iach – 2025 yn dod â grŵp gwirfoddol o bobl a sefydliadau sy'n poeni at ei gilydd sy'n gweithio gyda'r un pwrpas o ddod ag anghydraddoldeb iechyd y gellir ei osgoi i ben yng Ngogledd Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Annog gwahanol dimau i feddwl yn ehangach am eu rolau dyddiol i wella cartrefi pobl yn y sector preifat
Rhentu Doeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith gyda Landlordiaid i hyrwyddo Rhentu Doeth Cymru a gwella safonau'r stoc rhentu preifat.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru wydn a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi

Blaenoriaeth 3.3 Cwblhau'r rhaglen SATC erbyn 2020 ar draws yr holl stoc tai

Gweithred	Tasg
Stoc y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau gwelliannau amgylcheddol erbyn 2020 a nodi cyllid i ymgymryd â'r gwaith allanol
Stoc partneriaid y Gymdeithas Tai	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau gwelliannau amgylcheddol erbyn 2020.

Blaenoriaeth 3.4 Mabwysiadu dull cydweithredol o baratoi ar gyfer y cynnydd yn y galw am addasiadau mewn eiddo sy'n caniatáu trigolion i aros yn eu cartref.

Gweithred	Tasg
Gosod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar les ac annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu partneriaeth sy'n ymgorffori pob partner gyda chyllid am addasiadau'n cynnwys: <ol style="list-style-type: none"> Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor Grant Cyllid Anableddau'r Sector Preifat; Care and Repair, ENABLE ar gyfer mân addasiadau ac addasiadau mawrion ar gyfer y rhai yn y sector preifat; Gall Cymdeithasau Tai droi at Grantiau Addasiadau Ffisegol i denantiaid presennol.
Gwella deallusrwydd ar y galw am addasiadau	<ul style="list-style-type: none"> Tynnu ynghyd ystod o ddata gan bob partner i sefydlu gwell dealltwriaeth o'r galw i'r dyfodol.
Cysylltu'r systemau ar gyfer rheoli a chyflawni addasiadau	<ul style="list-style-type: none"> Cyd-ddatblygu polisiau tai wedi'u haddasu ar gyfer pob partner fel rhan o'r Grŵp Tai Arbenigol. Adolygu safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau yn unol â Llywodraeth Cymru. Ystyried sut gall pecyn cymorth EHRC gael ei ddefnyddio yn Sir y Fflint.

7. Gwneud iddo ddigwydd: y cynllun gweithredu

Er mwyn i'r strategaeth gael ei chyflawni a bod yn effeithiol, byddwn yn defnyddio ystod o adnoddau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn bodloni'n blaenoriaethau strategol fel y gosodwyd uchod. Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cyfrannu at greu Cymru wydn a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi

Blaenoriaeth 3.5: Gwella safon eiddo wedi'u hadeiladu o'r newydd a godwyd gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai

Gweithred	Tasg
Defnyddio Safonau Tai Sir y Fflint	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu a gwerthuso'n barhaus y safonau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn cyfrannu at yr agenda effeithlonrwydd ynni ehangach. Ystyried cyflwyno gofynion pellach megis paneli solar / ffotofoltäig, manau gwefru ceir trydanol.
Gofynion Ansawdd Cynllunio Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff safon gyson o ran cynllun mewnl ei chyflawni ar draws ystod o fathau o dai safonol sydd mor hyblyg â phosibl i ddarparu ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o'r trigolion.
Cyflawni gwahanol ddulliau adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni adeiladau newydd gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy sy'n cynnwys ffrâm bren / Paneli Inswleiddiedig Strwythurol a gwella cyfraddau Gweithdrefn Asesu Safonol fel rhan o RhTAS. Datblygu cyfleoedd caffael trwy gydweithredu gyda phartneriaid y Gymdeithas Tai i gyflawni dulliau adeiladu newydd. Datblygu gan ddefnyddio gweithgynhyrchu oddi ar y safle i leihau gwastraff a dulliau adeiladu cynt.